# Cofnodion cyfarfod 1/4/2021 dros Zoom

**Presennol:** Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Rhys Evans, Dilys Evans, Sharon Evans, Elin Hedd, Tony Parry, Carol Rowlands, John Caradog Williams *(ffôn)*

Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd),

Lis Puw *(Clerc)*.

1. **Croesawyd** pawb gan y Maer a dywedodd ei fod wedi ymweld ag Ysgol Godre'r Berwyn. Cytunwyd i anfon i ddiolch i'r Pennaeth a'r holl staff dysgu a'r staff cymorth i gyd am weithio mor eithriadol o galed Roedd ymatebion i holiadur a anfonwyd yn bositif dros ben. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alun Price.

2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mawrth 4ydd, 2021.

4. **Materion y Clerc:**

   i. Seddi gweigion ar y Cyngor: trafodwyd y camau nesaf yn dilyn 6/4/21 sef dyddiad cau
   ii. Trwydded Pafin a cheisiadau newydd: derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Gyngor Gwynedd y daeth y cyfnod i ben yn 2020 cyn i unrhyw drwyddedau cael eu hanfon, hynny yw, caniatâd dros gyfnod cyfyngedig yn 2020 oedd dan sylw. Dywedodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan fod Cyngor Gwynedd yn hyrwyddo busnesau i ddefnyddio strydoedd yn y tymor byr. Gofynnwyd i'r Cynghorydd Dilwyn Morgan holi ymhellach yng Ngwynedd, a dywedodd y byddai'n holi Stori.
   iii. Biniau'r Llyn: nid oedd yn bosib i'r lori gael mynediad i'w gwagio dros y cyfnod clo, ond maen wedi eu gwagio erbyn hyn.
   iv. Bin baw ci i Gysgod y Coleg: derbyniwyd eglurhad gan swyddog o Gyngor Gwynedd na ddarperir ar gyfer ystadau tai. Cyflwynwyd yr wybodaeth i'r achwynydd gydag anogaeth i roi manylion pellach i Gyngor Gwynedd os dymunai.
   v. Peiriant cyfleusterau'r Grin: mae'r peiriant wedi ei drwsio erbyn hyn.
   vi. Coed y Stryd Fawr: derbyniwyd ymddiheuriad gan NMWTRA am beidio hysbysu'r Cyngor o'r bwriad i dorri'r goeden wrth y post. Roedd ei gwreiddiau yn amharu ar y pafin ac ar beipiau cyfagos. Bydd cerddinen yn cael ei gosod yn ei lle.
   vii. Mainc a ddifrodwyd wrth Bargain Booze: mae Cyngor Gwynedd wedi ymgymryd â hawlio yswiriant i'w thrwsio ac i drwsio'r pafin.

5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd. Mae'r gwaith o gasglu cerrig y plant mewn llaw. Mae'r Cynghorydd Dilwyn Morgan wedi cysylltu gyda NMWTRA i geisio cael rhwystr rhag i loriau fynd ar y pafin. Cyfeiriodd at ap Gwynedd lle gellir nodi lleoliad sbwriel a thynnu llun. Mae Cyngor Gwynedd yn ymgynghori ar werth twristiaeth i'r economi, ac yn bwriadu blaenoriaethu buddiannau trigolion Gwynedd; bydd cyfle i Gyngor Tref Y Bala ymateb a mynegi barn.

6. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyniwyd adroddiad oddi wrth Tony Parry trwy law Rhys Evans. Mae Jones Brothers wedi cael y Cytundeb i wneud y gwaith. Cytunwyd i holi'r cynrychiolydd pa goed sy'n cael eu torri pan ddaw i'r cyfarfod nesaf.

7. **Un Llais Cymru:** (e-bostiwyd) Trafodwyd

    i. Digwyddiad ar y cyd rhwng Un Llais Cymru / SLCC – 13 Mai 2021;
    ii. Arolwg Cysylltedd Digidol;
    iii. Aelodaeth Un Llais Cymru;
    iv. Rhaglen Hyfforddiant

8. **Is-bwyllgorau:** Nid oedd adroddiadau y tro hwn.

9. **Materion Cynllunio**: Cymeradwywyd cais **NP5/53/LB53M** Spar, 39 Stryd Fawr, Y Bala. LL23 7AF

    "Caniatâd Adeilad Rhestredig i newid manion wyneb y siop gan dynnu'r teils presennol naill ochr a'r rhan ganol gan orchuddio a chladin pren ar ei hyd yn ganolog gyda philasterau naill ben. Addurno'r drws a ffenestr y siop, sgroliau ac oddi amgylch 'peiriant twll yn wal' a phaent llwyd gydag wyneb ffasgia a chornis newydd gorffeniad paent llwyd ac iddo arwydd a logo siop newydd"

**10.Materion Cyllid:**

**i.** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf

**ii.** Cytunwyd i dalu'r anfonebau a ganlyn:

  **1)** Cyngor Gwynedd Toiledau 2020-21: £8,000

  **2)** Aelodaeth Un Llais Cymru £354

  **3)** Porthmadog Computers ASUS a llygoden (trwy law E Puw) £625.98 (cynnwys TAW)

  **4)** Cyflog (mis Mawrth)

  **5)** Trwydded Zoom £59.95 (rhannu gyda Chyngor Cymuned Llanuwchllyn )

iii. Nid oedd ceisiadau am arian (blwyddyn ariannol 2020-21)

iv. Glanhau llochesi bws – cytunwyd i barhau gyda'r telerau blaenorol er y bydd person gwahanol yn gwneud y gwaith o lanhau am weddill y cytundeb.

**11. Gohebiaeth:** (e-bostiwyd) Trafodwyd

*i.* A494(T) Y Bala - Ymgysylltiad Rhanddeiliaid: Darpariaeth Teithio Llesol. Barn y Cynghorwyr oedd bod rhai anawsterau wrth feicio ar hyd y Stryd Fawr, ond y byddai unrhyw lwybr amgen yn fwy peryglus o lawer. Awgrymwyd bod cynghorwyr yn ystyried ymhellach ac anfon sylwadau at y Clerc.
*ii.* Gofynion newydd ar Gynghorau (a Chlercod)
iii. Cyfoeth Naturiol Cymru : LIFE Afon Ddyfrdwy
iv. Llywodraeth Cymru : Ymgynghoriad ar y Cod Ymddygiad

v. Llywodraeth Cymru: rhaid bod yn gallu cyfarfod a rhannu Agenda yn electronig

vi. Llywodraeth Cymru: Ymgynghoriad: Pwerau awdurdodau lleol i fasnachu – Cyngor Tref ddim yn gymwys. Ymateb gan ddweud bod y gofynion ar Glercod cynghorau bychain yn ormodol.

vii. Llywodraeth Cymru: rhaid darparu cyfarfodydd o bell o 1/5/21; e-bostio papurau

**12. Partneriaeth Penllyn:** nid oedd adroddiad y tro hwn

**13. Asedau'r Cyngor:** Derbyniwyd adroddiad Carol Rowlands bod eu cyflwr yn dderbyniol. Cytunwyd i edrych eto ar y baneri wrth y Ganolfan Hamdden a gofyn i JC Williams ei hadnewyddu os bydd angen.

14. **Materion lleol** y Cynghorwyr Tref: Cytunodd Dilwyn Morgan i edrych mewn i oryrru o gwmpas Awel y Coleg, a'r parcio achlysurol ar y ffordd fawr wrth yr ysgol.

15. **Dyddiad a lleoliad** y cyfarfod nesaf: 6/5/21 (trwy gyfrwng Zoom, oni bai fod y rheolau'n newid) **Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol ar yr un noson am 7.00 pm, o flaen y cyfarfod arferol**



ARWYDDWYD.......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)